

Rheolwr Gwirfoddolwyr Artis Community Cymuned

Cyfrifol i:	Prif Swyddog Gweithredol
Cyflog:	£ 26k (pro rata)
Lleoliad:	Hyblyg / Tŷ JR D6, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd
Oriau:	30 awr yr wythnos (rydym yn agored i weithio hyblyg a cheisiadau am ostwng oriau)
Hyd y Contract:	6 mis

Cefndir

Mae Artis Community Cymuned, sy'n seiliedig ym Mhontypridd, yn darparu profiadau celf cymunedol ansawdd uchel a gaiff eu gyrru gan ddeilliannau cymdeithasol. Rydym yn credu yng ngrym trawsnewidiol creadigrwydd i wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd pobl a rydym wedi darparu profiadau celf proffesiynol, ansawdd uchel gyda chymunedau ar draws bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf ers 1987, gan greu cyfleoedd gyda'r bobl a gaiff eu herio fwyaf gan eu hamgylchiadau.

Mae Artis Community Cymuned wedi cyrraedd amser cyffrous iawn yn ei hanes gyda chynlluniau wedi eu cytuno ar gyfer symud i adeilad yr YMCA wedi ei ailddatblygu ym Mhontypridd. Daw'r prosiect ailddatblygu yn ganolfan ar gyfer creadigrwydd, celfyddydau a diwylliant fydd yn cynyddu egni a bywiogrwydd Cymoedd De Cymru. Bydd cynlluniau uchelgeisiol yn dod â'r safle lleol hanesyddol yn ôl i ddefnydd y gymuned erbyn canol 2021.

Y swydd

Mae Artis Community Cymuned yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr gyda chymwysterau addas a all gynnig hyd at bedwar diwrnod yr wythnos ar gyfer rôl Rheolwr Gwirfoddolwyr. Wrth i ni weithio at agor yr adeilad newydd, bydd y Rheolwr Gwirfoddolwyr yn cefnogi ac yn cymell tîm o Lysgenhadon Creadigol Gwirfoddol; gwirfoddolwyr o'r gymuned leol fydd yn llunio a bwydo i mewn i'r rhaglen newydd o weithgaredd a chyfrannu at ddatblygu a lansio digwyddiadau o amgylch agor adeilad PYMCA.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes amlwg o lwyddiant mewn recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr, a chysylltu gyda'r gymuned i gefnogi newid cadarnhaol.

Mae hwn yn gyfle i weithio gyda sefydliad ar gyfnod cyffrous o'i ddatblygiad, gan edrych ar wneud cyfraniad cadarnhaol i iechyd a llesiant ei gymuned yn ogystal â chefnogi ffyniant economaidd-gymdeithasol.

Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol

- Gweithio gyda thîm Artis i ddiweddarau a gweithredu'r Strategaeth Gwirfoddolwyr, gyda phwyslais ar recriwtio a rheoli Llysgenhadon Gwirfoddol.
- Gweithredu fel man cyswllt ar gyfer gwirfoddolwyr cyfredol a newydd.
- Monitro, cymell a chefnogi gwirfoddolwyr.
- Diweddarau disgrifiadau swydd gwirfoddolwyr i gynnwys cyfleoedd lluosog ym mhob rhan o'r sefydliad.

- Sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
- Cydweithio gyda thîm Artis a gwirfoddolwyr i reoli enw da, dynodi cysylltiadau allweddol a chydlynu gweithgareddau.
- Gweithio gyda thîm Artis i gyfathrebu stori Artis Community Cymuned drwy leisïau gwirfoddolwyr.
- Trefnu rotas a rhoi sesiynau sefydlu a hyfforddiant,
- Trefnu cyfarfodydd grŵp newydd i ddod â gwirfoddolwyr ynghyd (yn rhithiol os oes angen).
- Monitro a gwerthuso gweithgaredd gwirfoddolwyr ac adrodd i Dîm Artis.
- Gwneud tasgau gweinyddol dydd i ddydd yn effeithlon a hunan-ddigonol.
- Cadw cysylltiad rheolaidd a chynhyrchiol gyda staff, gwirfoddolwyr ac asiantaethau allanol.
- Gweithredu bob amser yn unol â pholisïau'r sefydliad.

Datblygu proffesiynol

- Cynnal a datblygu arbenigedd a gwybodaeth personol drwy ddarllen, rhwydweithio ac ymgymryd â hyfforddiant pellach er mwyn datblygu cymhwysedd proffesiynol a chyfrannu at ddatblygu cymhwysedd o fewn y tîm.

Cyfrinachedd

- Sicrhau cyfrinachedd bob amser, gan ddim ond rhyddhau gwybodaeth personol a gafwyd yn ystod y gyflogaeth i'r rhai sy'n gweithredu mewn rhinwedd swyddogol.
- Cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae'r swydd yn amodol ar wiriad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal â derbyn 2 dystlythyr boddhaol.

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau a hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> ● 3+ blynedd o brofiad o weithio yn y sectorau, creadigol, diwylliannol neu elusennol ● Profiad o weithredu rhaglen gwirfoddolwyr a dealltwriaeth o ethos gwirfoddoli ● Dull gweithredu strategol a chreadigol, gyda'r gallu i weithio i amserlenni tra'n trin blaenoriaethau lluosog ● Sylw trwyadl i fanylion a chywirdeb ● Person gyda hunangymhelliant sy'n gweithio'n dda yn annibynnol ac fel rhan o dîm bach ● Profiad o hyrwyddo barn a safbwyntiau cymunedau ● Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau sector, yn cynnwys heriau yn ogystal ag arloeseddau ac arfer da ● Ymrwymiad personol a phroffesiynol i degwch a chyfle cyfartal ac i amrywiaeth yn ei holl agweddau. 	<ul style="list-style-type: none"> ● Profiad a gwybodaeth o gelfyddydau cymunedol ● Addysg i lefel gradd ● Sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg ● Sgiliau BSL

Sgiliau a Galluoedd	<ul style="list-style-type: none"> ● Gallu i aml-dasgio a sgiliau trefnu ardderchog ● Gallu i weithio'n bwyllog dan bwysau ● Egni personol cadarnhaol drwy fod â hunan-gyfeiriad ac yn greadigol ● Sgiliau da mewn technoleg gwybodaeth a'r gallu i ddefnyddio dulliau cyfathrebu ar-lein tebyg i Zoom ● Agwedd gadarnhaol at weithio tîm ● Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu ardderchog 	<ul style="list-style-type: none"> ● Gallu i adeiladu a datblygu perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol a phartion/ sefydliadau allanol eraill
Profiad/ Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> ● Gallu i weithio'n effeithlon a heb ragfarn gyda phobl beth bynnag eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhywedd a chefnidiroedd diwylliannol a chymdeithasol ● Profiad o weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau cymunedol a sefydliadau trydydd parti arall ● Profiad o weithio gyda phobl ifanc 	<ul style="list-style-type: none"> ● Profiad o weithio mewn sectorau proffesiynol a chelfyddydau cymunedol ● Profiad o'r sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol ● Profiad o weithio gydag awdurdodau lleol, Cyngor y Celfyddydau, colegau/prifysgolion ● Gwybodaeth leol ● Profiad o gynllunio a chyflwyno ymgyrch ● Profiad o weithio gydag adrannau marchnata a chyfathrebu wrth gyflawni amcanion allweddol datblygu cynulleidfa a recriwtio cynulleidfa a chyfranogwyr gyda gwirfoddolwyr
Effeithlon-rwydd personol	<ul style="list-style-type: none"> ● Sgiliau trefnu a gallu amlwg i reoli amser yn effeithlon, yn annibynnol ac mewn timau ● Ymrwymiad i gyflenwi rhagoriaeth ● Ymrwymiad i ddysgu a datblygiad proffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> ● Trwydded yrru lawn gyfredol a defnydd car gydag yswiriant ar gyfer defnydd busnes.